

Hafan
Pori
Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd
Chwiliad testun rhydd

English

●

PDF Argraffu Cyfeirnod

Llinell Amser English

ROBERTS, ROBERT ('Bob Tai'r Felin'; 1870 - 1951), canwr cerddi gwerin

Enw: Robert Roberts
Ffugenw: Bob Tai'r Felin'
Dyddiad geni: 1870
Dyddiad marw: 1951
Priod: Elizabeth Jane Roberts (née Roberts)
Plentyn: Harriet Roberts
Plentyn: Morris Roberts
Plentyn: Cadwaladr Roberts
Rhiant: Betsi Roberts (née Rowlands)
Rhiant: Cadwaladr Roberts
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: canwr cerddi gwerin
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Robin O. G. Williams

Anawyd 1 Medi 1870 yn Nhai'r Felin, Cwmtyrynach, Bala, Meirionnydd, yn fab o briodas Cadwaladr Roberts, Tai'r Felin, â Betsi Rowlands, Cae Gwernog, Capel Celyn. Dilynodd grefft ei dad gartref fel melinydd a ffermwr. Ymbriododd ag Elizabeth Jane Roberts, o fferm y Fron-goch gerllaw, a magasad dri o blant. Yngh nghanol Presbyteriaid Cwmtyrnach bu'n codi canu am gryn hanner can mlynedd, yn athro ysgol Sul i ddosbarth o ferched, ac etholwyd ef yn flaenor. Cyfrannodd i ddiwylliant cryf y fro gan ddilyn cyngerddau, cyrddau cystadleuol ac eisteddfodau; byddai hefyd yn cystadlu yn lled gysyn ar yr enghlyn y w bryfiwl. Oherwydd ei lais cwbl arbennig, rhwyd â'i gyflwyniad cartrefol, daeth yn nodedig fel meist'r ar ganu cerddi gwerin. Yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1931 enillodd ar y gystadleueth can werin. Tua'r cyfnod hwnnw y ffurfiwyd parti Tai'r Felin (sef **Llwyd o'r Bryn** (Robert Lloyd), John Thomas a'i ferch, Lizzie Jane, a Bob Roberts a'i ferch, Harriet), parti a fu'n diddanu ar Llyfannau Cymru, a hefyd rai troeon yn Lloegr. O 1944 ymlaen daeth i sylw cenedl gyfan wrth ganu ar Radio B.B.C. yn rhaglenni **Sam Jones**, '*Noson lawen*'. Recordiwyd nifer o'i ganeuon gan Gwmni Decca a Teldisc; erbyn hyn mae dwy record hir o'i berfformiadau gan Gwmni Sain. Yn 1949 bu'n cymryd rhai mewn ffilm (a wnaed yn y Parc, Bala, ac yn Llundain) gyda *Noson lawen* yn deitl i'r fersiwn Gymraeg, a *The harvest* i'r fersiwn Saesneg. Bu'n canu hefyd o flaen y camerau teledu yn Alexandra Palace yn Llundain. Bu'r cyhoeddusrwydd a roddwyd i Bob Roberts yn fodd i boblogeiddio yn ogystal â i ddiogelu'r cerddi hyn, rhai fel 'Mari fach fy nghariad', 'Moliannwn', 'Gwenno Penygelli' etc., a bu cynnwys arnynt mewn detholiadau o ganeuon ar gyfer ysgolion. Yn 1959 golygodd **Haydn Morris** y llyfr, *Caneuon Bob Tai'r Felin*. Bu farw 30 Tachwedd 1951, a chladdwyd ef ym mynwent Llanylic gerllaw'r Bala. Yn 1961 sefydlodd **Llwyd o'r Bryn** grofa i gofio'r melinydd a'i gân; bellach mae cofeb iddo ar fin y ffordd wrth lidiart Tai'r Felin.

Awdur

Y Parchedig Robin O. G. Williams

Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

Robin Williams, *Y Tri Bob* (Llandysul 1970)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Robert Roberts**

Delweddau

Geoff Charles, Dadorchuddio cofeb i Bob Tai'r Felin

Geoff Charles, Fandaliaid wedi malurio cofeb Bob Tai'r Felin

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28360736

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gyd'nabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu



LLYFRGEL
THE NATION

